**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**13-09-21**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes (Cadeirydd), John Brynmor Hughes, Elin W Jones, Gareth Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Owen, Jason W Parry, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

**Swyddogion:**

Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Steve Collings a'r Cynghorydd Roy Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Gorffennaf 19 2021 fel rhai cywir.

Llongyfarchwyd Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) ar ei benodiad fel Cyfreithiwr yn Sir Fynwy. Diolchwyd iddo am ei gyngor a'i gefnogaeth i'r Pwyllgorau Trwyddedu a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu dros y blynyddoedd a dymunwyd y gorau iddo yn ei swydd newydd.

## 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 15 Mawrth 2021

## 6. RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Amgylchedd yn amlygu'r angen i'r Awdurdod Trwyddedu sydd yn dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn ei ardal, i fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009.

Cyfeiriwyd at gefndir y sefyllfa yng Ngwynedd a'r grymoedd sydd yn bodoli ar hyn o bryd ynghyd a phenderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol (19 Gorffennaf 2021) i gymeradwyo ymgymryd â phroses o ystyried mabwysiadu Atodlen 3 er mwyn sicrhau cyfundrefn trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw drwy'r Sir. Yn ogystal cymeradwywyd proses o ymgynghori am 28 diwrnod ac fe lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y 26ain o Orffennaf a daeth i ben ar y 23ain  Awst.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a bu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol. Ymgynghorwyd gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned) a'u gwahodd i gyfrannu at yr ymgynghoriad, Yn ogystal rhoddwyd holiadur ar wefan y Cyngor ac fe dderbyniwyd 102 o ymatebion i'r holiadur hwnnw. Adroddwyd bod mwyafrif amlwg (68%) o'r ymatebion cyflawn a ddaeth i law, o blaid mabwysiadau Atodlen 3 i gael trefn rheoleiddio sefydliadu rhyw yn y Sir. O ganlyniad, argymhellwyd bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ynghyd ag argymhellion cysylltiol. Rhagwelwyd cyflwyno'r mater gerbron y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref 2021.

Diolchwyd am yr adroddiad

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor Llawn:**

- **Fabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021**

- **Cyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi'r hysbysebion statudol ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym**

- **Dirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:15